**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

—

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

3 Ionawr 2023

Annwyl Jane

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig

Yn ddiweddar, cysylltodd RNIB Cymru â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Senedd flaenorol ynghylch anghydraddoldeb a'r pandemig.

Mae RNIB Cymru wedi tynnu sylw at argymhelliad 37 yr adroddiad hwnnw, a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i benodi arweinydd hygyrchedd o fewn Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r gwaith o lunio'r holl wybodaeth allweddol am iechyd y cyhoedd a gwybodaeth arall mewn fformatau hygyrch. Mae'r argymhelliad hwn wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn ei hymateb i'r adroddiad (Medi 2020), ond mae RNIB Cymru yn pryderu nad yw hyn wedi'i weithredu eto.

Cafodd y mater hwn ei godi eto mewn adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Ebrill 2022.[1] Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd y naratif yn yr ymateb yn canolbwyntio ar sefydlu'r Tasglu Hawliau Anabledd, adolygiad o'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain a pharatoi canllawiau ar gyfer staff a baratowyd gan y gweithgor Mynediad at wasanaethau (gan gynnwys cyfathrebiadau hygyrch) yn hytrach na mynd i'r afael yn uniongyrchol â phenodi arweinydd hygyrchedd o fewn Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r gwaith o lunio'r holl wybodaeth allweddol am iechyd y cyhoedd a gwybodaeth arall mewn fformatau hygyrch.

[1] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Aros yn iach? Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru, Ebrill 2022, argymhelliad 13.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu diweddariad mewn perthynas ag argymhelliad cychwynnol y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, gan gynnwys amserlenni ar gyfer ei weithredu ac unrhyw resymau pam yr hepgorwyd penodi arweinydd hygyrchedd o'r ymateb dilynol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Rydym yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

copi Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.